

## **Trawsgrifiad ar gyfer fideo'r Bwrdd Cynggori Cenedlaethol**

**Judith Hall:** My name is Professor Judith Hall and I'm delighted to have been asked to Chair the National Advisory Board for Care and Social Services Inspectorate Wales .

Mae Darpariaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithio ar gymaint o fywydau. Mae bod yn rhan o'r strwythur ymgynghorol yn rhoi cyfle i ni wella pethau er lles miloedd a miloedd o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. A thrwy Gadeirio mae'n gyfle i roi llais i'r arbenigedd sylweddol sydd gan y Bwrdd Cynggori. Y defnyddwyr, defnyddwyr y gwasanaethau a darparwyr y gwasanaethau eu hunain. Mae'n gyfle iddynt gael llais i greu gwasanaeth rhagorol yma yng Nghymru.

**Ffion Alun:** Fy enw i yw Ffion Alun dwi ar y Bwrdd fel y llais Cymraeg. Dwi'n teimlo ei fod yn hynod bwysig cael gwasanaethau dwyieithog a dwi'n teimlo bod cael person sy'n rhugl yn y Gymraeg ar y Bwrdd yn gallu gwneud gwahaniaeth. Dwi'n gallu bod yn llais bach yn y cefndir i atgoffa pobl weithiau am y pwysigrwydd o gael gwasanaethau Cymraeg. Y rheswm 'mod i eisiau bod ar y Bwrdd oedd am fod gen i syniad fod y ddelwedd sydd gan CSSIW gan y cyhoedd yn un eithaf negyddol ar adegau. Mae pobl sy'n gweithio mewn gofal ofn pan maen nhw'n cael eu harolygu. Mae'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus. Ond dydy hynny ddim yn deg. Pwrpas CSSIW ydy gwneud yn siŵr bod y gofal o'r safon uchaf ac i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y gwasanaethau addas.

Dwi'n gobeithio....Mae'n grêt i gael y cyfle i fod yn rhan o'r Bwrdd a chyfarfod â chymaint o bobl ddifyr a chael trafod a dwi'n gobeithio cynnig gwahaniaeth a rhoi barn pobl Cymraeg, barn pobl Gogledd Cymru efallai yn y materion rydyn ni'n eu trafod. Mae jyst yn gret i gael y cyfle yna. Yn fy ngwaith bob dydd dwi'n gweithio gyda Lleisiau Lleol Conwy ac yn cael lot o wybodaeth gan bobl am eu profiadau nhw. A dwi'n gobeithio defnyddio eu profiadau nhw i wella gwasanaethau hefyd.

**Judith Hall:** Mae Cymru 'n haeddu safon dda neu ragorol o ofal. Mae cymaint yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, o ran gofal, gwasanaethau cymdeithasol, lles ein dinasyddion ac mae'n teimlo fel man di droi'n ôl. Drwy roi llais i'r Bwrdd Cynggori hwn a'u caniatáu i drosglwyddo'r neges i'r bobl sy'n gwneud y penderfyniadau rwy'n credu y gallwn ni greu awyrgylch positif sicrhau lles i bawb a gweithio tuag at ragoriaeth yma yng Nghymru.